CYNGOR CYMDEITHAS LLANGOEDMOR COMMUNITY COUNCIL

# Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Llangoedmor a gynhaliwyd yn Neuadd y Cwrwgl, Llechryd nos Lun, 1 Chwefror 2016

Presennol:
*Cadeirydd:* Cyng Mrs Amanda Edwards. *Cyngr:* Ken Symmons, Mrs Eleri Davies, Iwan Davies, Colin Lewis, Peter Hazzelby, Bryan Rees

Ymunodd y Cyng Sirol Haydn Lewis â'r cyfarfod fel y gwelir yn y cofnodion

Clerc

Aelodau'r cyhoedd: 0

**1. Croeso ac Ymddiheuriadau**
Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i bawb a oedd yn bresennol. Roedd y Cyng G Evans (mewn angladd) a'r Cyng Mrs J Hawkes (salwch) wedi anfon eu hymddiheuriadau.

**2. Gweddi Agoriadol**

**3. Datgelu Buddiannau Personol**
Datgelodd y Cyng I Davies fuddiant personol mewn unrhyw drafodaeth yn ymwneud â Telemat gan ei fod yn cael ei gyflogi gan y cwmni.

**4. Materion Personol**
Mynegodd y Cyngor eu cydymdeimlad â'r Cyng B Rees ar golli ei dad yn ddiweddar.

*Gan nad oedd y Cyng Sirol H Lewis wedi ymuno â'r cyfarfod hyd yma, gohiriwyd trafod y materion cynllunio tan iddo gyrraedd.*

**5. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**
*Cadarnhau cofnodion 04.01.16*
Cynigiodd y Cyng B Rees y dylid derbyn y cofnodion fel rhai cywir, eiliwyd gan y Cyng C Lewis a phasiwyd yn unfrydol.

**6. Materion yn Codi**
*Lle nad ydynt wedi'u cynnwys gan bennawd Agenda*

Roedd Mr Harman wedi cysylltu â'r Cyngor ar ran Pwyllgor Neuadd y Cwrwgl i ddweud nad oedd y llwybr troed rhwng y neuadd a'r siop yn ffordd dramwy gyhoeddus, ond ar gyfer y neuadd yn unig. Byddai Pwyllgor y Neuadd, fodd bynnag, yn trefnu clirio'r llwybr.

Dywedodd y Cyng C Lewis ei fod wedi siarad â chontractwyr a oedd yn gweithio ar flwch band eang BT wrth y bont. Dywedwyd wrtho fod y blwch wedi'i niweidio'n ddifrifol gan y llifogydd yn ddiweddar ac i gael ei symud i fan gerllaw'r Eglwys.

**7. Cyllid a Gweinyddu**
*Awdurdodi Talu Biliau*

| | | Am | banc | TAW | Net | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 20.01.16 | Newsquest | Hysbyseb torri porfa yn y Tivyside | 81.60 | 13.60 | 68.00 | WEDI'i DALU |
| 1.02.16 | Abacus | Glanhau'r toiledau Ionawr | 170.00 | | 170.00 | |
| | Mr R Harman | Biniau | 40.00 | | 40.00 | |
| | Swallow Office Supplies | Inc | 56.59 | 9.43 | 47.16 | |
| | Un Llais Cymru | Tanysgrifiad | 173.00 | | 173.00 | |
| | Telemat | Adnewyddu ESET | 20.95 | 3.49 | 17.46 | |
| | Mathew Penny | Goleuadau Nadolig | 505.57 | 84.26 | 421.31 | |
| | Mary Jones | Cyfieithu | 80.00 | | 80.00 | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| S Houghton | Cyflog Ionawr | AS | 249.34 | | 249.34 |
| HMRC | Treth S Houghton Ionawr | | 62.20 | | 62.20 |
| S Houghton | Swyddfa Gartref Ionawr | | 25.00 | | 25.00 |
| S Houghton | Treuliau: postio, a gliniadur at Telemat | | 24.12 | | 24.12 |
| | | | 1406.77 | 97.18 | 1309.59 |

Cynigiwyd gan y Cyng B Rees, eiliwyd gan y Cyng C Lewis, pasiwyd yn unfrydol

Roedd y Clerc wedi darparu manylion y ddau fil dŵr diwethaf ar gyfer y bloc toiledau. Cytunwyd i gadw llygad ar ddefnyddio dŵr i sicrhau bod y nam ar y system wedi'i ddatrys yn barhaol.

Biliau Dŵr: Rhag 14 i Fai 15: Cyfanswm y bil £463.89 a £188.63 o hwnnw'n ddŵr.
Mai 15 i Dach 15: Cyfanswm y bil £386.56 a £147.17 o hwnnw'n ddŵr.

Dywedodd y Cadeirydd fod yr hysbysiad yn nhoiled y merched wedi'i ddifwyno.
GWEITHREDU: Gwneud hysbysiad newydd GAN: Y Clerc

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gweddill ar yr adroddiad banc | | | |
| ar 30 Tachwedd 2015 | | 11282.66 | |
| | | | |
| Heb sieciau heb eu cyflwyno | | | |
| | 637 | 15 | wedi'i dychwelyd gan y neuadd i'w hailgyflwyno |
| | 695 | 234 | Barry Evans |
| | 697 | 9.45 | Cadeirydd |
| | 699 | 5.69 | treuliau'r Clerc |
| | | 264.14 | |
| Gweddill yr adroddiad wedi'i gymhwyso | | 11018.52 | |
| | | | |
| Gweddill cyfrif cynilion 30 Tach 2015 | | 993.39 | |

Roedd y Clerc yn gweithio ar gysoniad banc llawn i'w gyflwyni i'r Cyngor. Dywedwyd bod y banc wedi cadarnhau bod enwau wedi'u newid ar y cyfrif.

*Rhoddion*

Ar ôl trafod, cytunwyd i ohirio rhoddion tan gyfarfod mis Mawrth.
Gweithredu: Rhoddion, eitem agenda mis Mawrth GAN: y Clerc

*Contract Torri Porfa*

Roedd y Clerc wedi siarad â dau oedd wedi cael y contract (un ohonynt y contractiwr presennol) a'r ddau wedi gofyn a oedd angen clirio'r toriad cyntaf. Roedd peiriannau modern yn malu'n dda ac roedd cost clirio a gwaredu'r borfa yn eithafol. Ar ôl trafod cytunwyd y byddid yn dileu'r angen am glirio'r toriad cyntaf ar y cae chwarae a'r iard chwarae. Byddai'r toriad cyntaf yn dal i gael ei glirio yn y Fynwent a phob toriad yn cael ei glirio yn ardal Pafiliwn y Mileniwm. Byddai gofalu am y llwyni ym mharc ceir y neuadd yn gynwysedig.
GWEITHREDU: Diwygio'r contact a'i anfon allan. GAN: Y Clerc

*Car wedi'i adael ym mharc ceir y Neuadd*

Dywedodd y Cadeirydd fod y perchennog wedi ymddiheuro am yr anghyfleustra roedd wedi'i achosi ac y byddai'n trefnu i'r car gael ei symud mor fuan â phosibl.

*Yswiriant*

Byddai'r Clerc a'r Cadeirydd yn cwrdd i fynd drwy'r wybodaeth gan ei bod yn gymhleth.

*Archifau'r Sir*

Dywedodd y Clerc y byddai Archifau'r Sir yn cymryd cofnodion y Cyngor. Byddai'r cofnodion yn agored i'r cyhoedd eu gweld yn ystod oriau agor yr Archif, ond yn dal yn eiddo i'r Cyngor, a gellid eu cymryd yn ôl unrhyw bryd. Codwyd cwestiwn ynglŷn â chael gweld cofnodion cyfrinachol sy'n cael eu cadw gan yr Archif, a byddai'r Clerc yn codi'r mater gydag Un Llais Cymru. Cytunwyd i gynnal diwrnod agored ar 5 Mawrth (os gellid trefnu lle addas yn y pentref) er mwyn i bawb sydd â diddordeb allu cael cyfle i edrych drwy'r cofnodion cyn eu cyflwyno i'r Archif. Byddai'r Clerc yn cadw cofnodion y 10 mlynedd diwethaf er mwyn hwylustod.
GWEITHREDU: Trefnu lleoliad GAN: y Cadeirydd
GWEITHREDU: Codi'r cwestiwn gydag ULlC GAN: Y Clerc

*Contract y Clerc*

Byddai cyfarfod o'r Pwyllgor Dibenion Cyffredinol yn cael ei gynnal i drafod contract ac amodau'r Clerc ac yn dod ag adroddiad yn ôl i'r Cyngor.
GWEITHREDU: Trefnu'r neuadd ar gyfer 5.30pm ar 9 Chwefror GAN: y Cadeirydd

*Cais y Clerc am wyliau'n cael ei seilio ar wyliau statudol* (pro rata).
Cytunwyd ar y dyddiadau.

*Cefnogwyd cais y Clerc am gael mynd i ddigwyddiad SLCC Abertawe* ar 2.2.16, ynglŷn â Bil Llywodraeth Leol (Cymru).
Nid oedd dim sylwadau wedi cyrraedd oddi wrth y Cynghorwyr ar fater y Bil.

*Gliniadur/Gwefan*

Dywedodd y Clerc fod y gliniadur presennol, yn dilyn ail ymweliad â Telemat, nawr yn gweithio ond yn araf iawn. Dywedodd iddi drafod y mater gyda Telemat a'u bod wedi awgrymu prynu gliniadur mwy diweddar. Ymddiheurodd y Cyng I Davies ar ran Telemat gan fod rhai problemau staffio wedi bod gan olygu oedi ar y gliniadur yn ystod cyfnod y Nadolig.
GWEITHREDU: Cael dyfynbrisiau ar gyfer gliniadur newydd GAN: Y Clerc
Dywedodd y Clerc ei bod wedi dechrau llunio'r wefan ond ei bod yn teimlo y byddai'n cymryd cryn amser, gan fod y gliniadur yn araf.

*Ymunodd y Cyng Sirol H Lewis â'r pwyllgor*

**8. Ceisiadau Cynllunio**

*A151033* Dileu amodau 3, 4 a 5 yng nghaniatâd cynllunio A100175 (dileu amodau uned wyliau a throi atodiad i'r atodiad preswylio presennol yn fwthyn carreg eto, Stone Cottage, 3 Helyg Fach, Aberteifi.
Cefnogwyd y cais hwn gan y Cyngor.

*A151043* Codi estyniad deulawr gyda balcon a grisiau allanol, porth newydd wrth y fynedfa flaen
Meadow View, Llangoedmor.
Cefnogwyd y cais hwn gan y Cyngor o ran ei egwyddor, ond gofynnwyd pa ystyriaeth oedd wedi'i rhoi i fuddiannau cymydog.

Soniodd y Cyng Sirol H Lewis am berfformiad rhagorol Ysgol Gynradd Llechryd.
GWEITHREDU: Llythyr llongyfarch i'r ysgol GAN: Y Clerc

*Gadawodd y Cyng Sirol H Lewis y cyfarfod*

**9. Priffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus**

*Oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion (CSC)*

Roedd CSC ar hyn o bryd yn edrych ar ffyrdd i gynyddu'r gwaith a wneir gan wirfoddolwyr wrth reoli a hyrwyddo hawliau tramwy cyhoeddus drwy gychwyn "cynllun Mabwysiadu Llwybr" yn y sir. Roedd CSC yn dymuno mesur lefelau'r diddordeb yn y cynllun Mabwysiadu Llwybr i'w defnyddio'n dystiolaeth o'r angen wrth wneud cais am ariannu allanol i helpu wrth weinyddu a rheoli'r fenter. Byddai unrhyw "fabwysiadu" llwybrau yn cael ei wneud yn anffurfiol, ac ni fyddai mynegi diddordeb neu gymryd rhan yn y cynllun yn ymrwymo Cynghorau Sir i unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol na thymor hir.
Cytunwyd y byddai'r Cyngor Cymuned yn cefnogi'r cynllun ond gyda'r awgrym y dylid cael cadarnhad bob blwyddyn fod ymrwymiad y 'mabwysiadwyr llwybrau' yn parhau.
GWEITHREDU: Cysylltu â CSC GAN: Clerc

*Ymateb pellach gan CSC ynglŷn â'r Mur Cynnal*

Roedd CSC wedi archwilio'r mur a'r darn coed dan sylw. Roedd rhai problemau wedi dod i'r amlwg a byddai CSC yn cymryd y camau priodol mewn cysylltiad â'r darganfyddiadau cychwynnol hynny. Ar hyn o bryd mae CSC yn bwriadu cynnal arolygon/archwiliadau arbenigol pellach, a gweithredu ar sail yr arolygon hynny fel y tybir sy'n briodol.

**10. Mwynderau**

*Toiledau:*

Roedd Mr E Rees wedi dweud ei fod, ar ddau ymweliad a oedd wedi'u trefnu, wedi gweld bod y toiledau wedi'u rhwystro. Roedd wedi delio â'r problemau, ond credai mai'r broblem barhaus gyda'r toiledau oedd bod papur toiled yn cael ei ddefnyddio i leinio'r 'sedd' ac i sychu dwylo. Nodwyd.

*Yr Hen Eglwys:*

*Dywedodd y Clerc y byddai angen ychydig sylw ar y meinciau gan fod yn farnais yn dod i ffwrdd a choed ynn ifanc yn tyfu o gwmpas yr 'eil' wrth yr eglwys.*
Cynigiodd y Cyng B Rees yn garedig i edrych ar y materion cynnal a chadw a oedd wedi'u codi.

*Pafiliwn y Mileniwm:*

Roedd y Cyng G Evans a'r Cadeirydd wedi clirio'r cafnau dŵr a glanhau'r byrddau ym Mhafiliwn y Mileniwm. Mynegodd y Cadeirydd ei gofid am gyflwr y goeden y tu ôl i'r Pafiliwn.
Cytunodd y Cyng B Rees i edrych ar gyflwr y goeden.

**11. Prosiectau'n Parhau**

*SLt Lawrence*

Hyd yma nid oedd dim ymateb wedi dod i'r llythyr a anfonwyd at berthnasau SLt Lawrence. Byddai'r Clerc yn ceisio dod o hyd i rif teleffon.

*Mr Leigh – Mainc*

Roedd Mr Leigh wedi cysylltu ac yn edrych ar gynlluniau. Byddai’n hapus iawn i gyflwyno’r fainc i’r Cyngor ar gyfer cynnal a chadw yn y dyfodol.

*Cofeb Rhyfel* – Cyng B Rees

Dywedodd y Cyng Rees, ar ôl iddo siarad â chwmni oedd yn cynhyrchu placiau, mai’r cyngor oedd peidio â defnyddio arwyddlun y Cyngor gan ei fod yn rhy gymhleth. Byddai’r testun a fwriedid yn ddwyieithog ac yn costio tua £350 yn ogystal â TAW. Byddai’r cwmni’n darparu llun i’w gymeradwyo.

*Diffibrileiddiwr* – Cadeirydd

Dywedodd y Cadeirydd fod yr offer wedi’i brofi, bod pŵer ynddo a’i fod yn gweithio ond nad oedd eto wedi ei osod yn y blwch. Roedd rhywfaint o ddryswch ynglŷn â chod i allu agor y blwch, a byddai hi’n ymchwilio i hyn ac yn darparu hysbysiadau, ac ati.
GWEITHREDU: Y Cadeirydd i wneud hyn.

*Cynllunio Mewn Argyfwng* – Cyng J Hawkes

Gohiriwyd

*Gwylio Cyflymder* – Cyng C Lewis

Dim gwybodaeth newydd ar gael.

**12. Digwyddiadau**

Nodwyd y byddai angen baner erbyn Dydd Gŵyl Dewi.

**13. Adroddiadau Cyfarfodydd**

Dim.

**14. Gohebiaeth + negeseuau e-bost**

*Gohebiaeth i WEITHREDU arni*

*Ymgynghori â Swyddfa’r Post am y cynnig i gael gwasanaeth symudol yn* Llechryd, dydd Iau, 13.45 – 14.45

Cytunodd y Cyngor i gefnogi’r cynigion.
GWEITHREDU: Cysylltu â SP GAN: Y Clerc

*Cymru Effeithlon*, gwasanaeth gan Lywodraeth Cymru sy’n cynnig cyngor diduedd am ddim i gartrefi ar ynni.

Cytunwyd y gallai’r Cyngor osod posteri yn y cymunedau.
GWEITHREDU: Cysylltu â CE GAN: Y Clerc

*Gohebiaeth WEDI’I NODI*

Canllaw i Gymryd Rhan - Coelcerthi 90ain Pen-blwydd y Frenhines
Cytunwyd nad oedd y naill bentref na’r llall yn gallu cynnig lleoliad addas i ddarparu coelcerth.

Gwybodaeth hyfforddiant gan Un Llais Cymru

Mark Williams AS, poster am ddyddiadau ei feddygfa

Cyngor Sir Ceredigion – cofnodion y Pwyllgor Rheoli Datblygiad

*Cymru’n Cofio* 1914–1918

Maniffesto: Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd

**15. Cyfnewid Gwybodaeth**

Gofynnodd y Cyng K Symmons a oedd arwyddion am faw cŵn wedi eu hadnewyddu.
GWEITHREDU: Cadeirydd

Gofynnwyd a oedd gwahoddiad wedi dod i ginio’r Cyngor Sir. Cytunwyd yn gyffredinol fod hwn i ddigwydd yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Roedd gadael sbwriel yn anghyfreithlon yn broblem eto yn y ganolfan ail-gychu.
GWEITHREDU: Rhoi gwybod i CSC GAN: Y Clerc

**16. Dyddiad y cyfarfod nesaf – 07.03.16 - 7.00pm**

*Gan nad oedd busnes pellach i’w drafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.30pm*